

BETH SYDD 'MLAEN | WHAT'S ON

# MWLDAN

IONAWR–CHWEFROR 2022

JANUARY–FEBRUARY 2022

# CROESO I'R MWLDAN
# WELCOME TO MWLDAN

Annwyl Ffrindiau

Croeso cynnes i'n rhaglen newydd ar gyfer Ionawr a Chwefror 2022, ac i fwy o olau dydd ac addewid y Gwanwyn ar y gweill.

Ni allwn wadu bod llywio gaeaf gyda holl effeithiau'r pandemig ynghlwm wedi bod yn hynod heriol i ni i gyd, ac mae gennym dipyn o ffordd i fynd eto. Fel busnes lleol, mae angen eich cefnogaeth chi ein cwsmeriaid arnom, yn fwy nag erioed. Felly, hoffwn ofyn i chi barhau i'n cefnogi ni trwy ddod i weld ambell ffilm wych, darllediad byw neu sioe fyw dros yr wythnosau nesaf.

Sylweddolwn y gallai gofynion newydd y trefniadau pàs COVID yng Nghymru wneud ymweld â ni ymddangos yn fwy brawychus na fyddem i gyd yn hoffi. Ond ers i ni ailagor, rydym wedi mynd y tu hwnt i ganllawiau Llywodraeth Cymru yn gyson i wneud profiad y Mwldan mor ddiogel â phosib i bawb yn ein cymuned, ac yn wir, mae'r nifer fawr o negeseuon rydym wedi'u derbyn gennych chi yn cefnogi ein trefniadau diogelwch COVID wedi codi ein calonnau'n fawr iawn.

Gellir gweld canllawiau llawn ar gyfer eich ymweliad â'r Mwldan ar dudalen 30 yn y rhaglen hon. Mae yna rai ffyrdd syml iawn i'ch galluogi i fynychu sioe neu ddangosiad yma, ac fel bob amser, mae ein staff wrth law pe bai gennych chi unrhyw gwestiynau neu angen unrhyw help.

Ein diolch diffuant i'r rheiny ohonoch sydd wedi bod yn ymweld â'r Mwldan. Mae eich cefnogaeth yn gwneud i ni wenu yn ddiogel y tu ôl i'n masgiau wyneb! Gobeithiwn eich gweld yn fuan iawn.

Gyda chofion gorau


Sioeau Byw | Live Shows........................................3
Darllediadau Byw | Live Broadcasts............................14
Sinema | Cinema...............................................17
Cwestiynnau Cyffredinol | General Information.................30
Dyddiadur | Diary.............................................34


Dear Friends

A warm welcome to our new programme for January and February 2022, and to lengthening daylight and the promise of Spring.

We can't deny that navigating a winter impacted by the pandemic has been extremely challenging for us all and we still have some way to go. As a local business, we need the support of you, our customers, more than ever. So, I would like to ask you to keep supporting us by coming to see some great films, live broadcasts or live shows over the coming weeks.

We know that the new requirements of the COVID pass arrangements in Wales may make a visit to us seem more daunting than we would all like. But since we re-opened, we have consistently gone beyond Welsh Government guidance to make the Mwldan experience as safe as possible for everyone in our community, and we've been truly touched by the very many messages we have received from you in support of our COVID safety arrangements.

Full guidance for your visit to Mwldan can be found on page 30 in this programme. There are some very simple ways to allow you to attend a show or screening here, and as ever our staff are on hand should you have any questions or need any help.

Our sincere thanks to those of you who have been visiting Mwldan. Your support makes us smile safely behind our face masks! We hope to see you very soon.

With best wishes

Dilwyn Davies

**Dilwyn Davies,**
**Prif Weitheredwr | Chief Exceutive**

# SIOEAU BYW
# LIVE SHOWS



## GWYBODAETH BWYSIG YNGHYLCH SIOEAU BYW
## IMPORTANT INFORMATION REGARDING LIVE SHOWS

Sylwch, ni fydd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith yn ein perfformiadau byw.

GWELER TUDALEN 30 I GAEL MWY O WYBODAETH AM FEINI PRAWF MYNEDIAD ac am y mesurau sydd gennym ar waith i'ch cadw chi'n ddiogel.

Rhaid archebu pob tocyn ymlaen llaw. Mae archebu'n cau ar-lein 1 awr cyn amser dechrau. Byddwn yn agor ein prif ddrysau 60 munud cyn amser. Os gwelwch yn dda, cyrhaeddwch mewn da bryd (o leiaf 30 munud cyn amser dechrauír perfformiad).

Ar gyfer pob dangosiad byw rhoddir rhif sedd i chi ar adeg archebu os ydych yn archebu tocynnau dros y ffon, a gallwch ddewis eich seddi eich hun ar gyfer sioeau byw os ydych yn archebu ar-lein.

Please note that our live performances will not be socially distanced.

SEE PAGE 30 FOR FURTHER INFORMATION REGARDING IMPORTANT ENTRY CRITERIA and the measures we have in place to keep you safe.

All tickets must be pre-booked. Booking closes online 1 hour prior to the performance. Doors open 60 minutes before the advertised show start time. Please arrive in good time (at least 30 mins before the start time).

You will be allocated a seat number when you book by phone, and can choose your own seats if you book online.



## MARTYN JOSEPH

### Nos Iau 27 Ionawr | Thursday 27 January, 7.30pm

£18 (£17)

O ystyried mai un dyn a'i gitâr yn unig ydyw, mae Martyn Joseph yn creu perfformiad gyda sain bellgyrhaeddol enfawr. Cymharwyd ef â Bruce Springsteen, John Mayer, Bruce Cockburn a Dave Matthews, mae'n sefyll yn gadarn ar yr enw da hwnnw a adeiladwyd am roi'r hyn y mae miloedd o bobl wedi'i ddisgrifio fel profiad cerddoriaeth fyw gorau eu bywydau. Mae ganddo'r gallu prin i siarad â'r enaid gyda'i eiriau mynegiadol ac ingol ac mae ganddo yrfa sy'n rhychwantu 30 mlynedd, 33 albwm, dros hanner miliwn o werthiannau record a miloedd o berfformiadau byw.

For one man and a guitar, multi-award winner Martyn Joseph creates a performance with a huge far-reaching sound. Often compared to Bruce Springsteen and Dave Matthews, Martyn's unique talent is driven by passion, social awareness and love for his trade. He's a jaw-dropping guitar player who has developed a unique percussive style, teamed up with a powerful show stopping voice. Gifted with the rare ability to speak to the soul with his expressive and poignant lyrics, Martyn's career spans 30 years, 32 albums and thousands of live performances.

***One of acoustic music's most original voices, and most forward looking of his generation of singer/songwriters – Q MAGAZINE***



BALLET THEATRE UK

## THE SNOW QUEEN

### Nos Wener 4 Chwefror | Friday 4 February, 7.30pm

£18 (£16) (£10)

Ymunwch â Ballet Theatre UK ar gyfer eu hailwampiadhyfryd o fale stori dylwyth teg glasurol Hans Christian Andersen, The Snow Queen. Mae'r cynhyrchiad ysblennydd hwn yn dilyn stori Gerda a'i hymgais i ddod o hyd i'w ffrind Kay, sydd wedi'i roi o dan gyfaredd atgas gan y Snow Queen. Dim ond cariad Gerda tuag at Kay all ei ryddhau o'r gyfaredd a thorri melltith y Snow Queen, sef gaeaf tragwyddol. Mae cwmni enwog o ddawnswyr rhyngwladol Ballet Theatre, ynghyd â gwisgoedd hardd a setiau llwyfan disglair yn cyfuno i greu golygfa odidog, y cyfan wedi'i osod i sgôr gogoneddus a hudolus.

Join Ballet Theatre UK in their beautiful re-telling of Hans Christian Andersen's fairy tale ballet, The Snow Queen.This spectacular production follows the story of Gerda and her quest to find her friend Kay, whom the Snow Queen has placed under an evil spell. Only Gerda's love for Kay can release him from the spell and break the Snow Queen's curse of eternal winter. Ballet Theatre UK's renowned company of international dancers, beautiful costumes and glittering stage sets combine to create a magnificent spectacle, all set to a glorious and magical score.





## NATASHA WATTS

### Nos Wener 11 Chwefror | Friday 11 February, 7.30pm

£20

Am un noson un unig, bydd Natasha Watts, cantores ryngwladol cerddoriaeth yr enaid sydd bellach yn byw yn lleol, yn perfformio casgliad o draciau cerddoriaeth yr enaid gwreiddiol a chlasurol hyfryd gyda dim ond piano yn gyfeiliant iddi.

Siwrnai syfrdanol o gerddoriaeth a straeon a fydd yn gwneud i chi chwerthin a chrio.

For one night only - Natasha Watts, an international soul singer who now lives locally, will perform a collection of beautiful, original and classic soul tracks with just a piano to support her.

A stunning journey of music and stories that will make you laugh and cry.

HYRWYDDIR GAN | PROMOTED BY: NATASHA WATTS



## BUDAPEST CAFÉ ORCHESTRA


### Nos Iau 24 Chwefror | Thursday 24 February, 7.30pm

£16 (£15)

Cerddorfa fach ond perffaith yw'r Budapest Café Orchestra, gyda phedwar offerynnwr yn unig sy'n cyfuno ffidil, gitâr, acordion, bas dwbl, saz a balalaika mewn modd disglair, gan greu alcemi clywedol anhygoel sydd fel arfer ond yn nodweddiadol o ensembles llawer mwy. Mae'r gerddoriaeth yn dwyn i gof delweddau bywiog o feistri ffidl y Tzigane, bywyd caffiym Mwdapest a thanau gwersyll sipsiwn - yn ogystal ag ambell syrpreis ar hyd y ffordd. Mae sioe gan y Budapest Café Orchestra yn hynod ddifyr, ac yn arddangos sgiliau rhyfeddol a dawn gerddorol aruthrol, yn wir, mae'n ddigon da i'ch temtio i fynd ati i drefnu gwyliau ar y Danube!

A small, but impeccably formed orchestra of just four players, the Budapest Café Orchestra combines violin, guitar, accordion, double bass, saz & balalaika to dazzling effect, creating an awesome aural alchemy normally only characteristic of far bigger ensembles. Evoking vivid images of Tzigane fiddle maestros, Budapest café life and gypsy campfires - hugely entertaining, immense skill and profound musicianship, a show by the Budapest Café Orchestra is good enough to make you want to book that holiday down the Danube!






## BLACK RAT PRODUCTIONS + BLACKWOOD MINERS' INSTITUTE

# BLACK RAT: THE INVISIBLE MAN

### Nos Wener 25 Chwefror | Friday 25 February, 7.30pm

£14 (£12)

**Gan/By HG Wells**
**Comedi newydd sbon wedi'i ysgrifennu a'i gyfarwyddo gan Richard Tunley / A brand-new comedy written & directed by Richard Tunley**

Cymru, 1933. Mae The Invisible Man yn serenu Claude Rains yn dychryn cynulleidfaoedd ledled y byd.

Mae gweithlu bach Neuadd y Gweithwyr Aberllanpencwm, sy'n dyblu fel neuadd bingo a sinema, yn croesawu cynulleidfaoedd i wylio The Invisible Man. O ganlyniad i drafferthion technegol mae'n rhaid i weithwyr y sinema adrodd y stori eu hunain. Mae pethau rhyfedd yn dechrau digwydd. Ai cyd-ddigwyddiad yw'r rhain? Yntau'r dyn anweledig ei hun sy'n gyfrifol?


It is Wales, 1933. The Invisible Man starring Claude Rains is terrifying cinema audiences worldwide.

The very small workforce of the Aberllanpencwm Workingman's Hall are welcoming audiences for a screening of the newly released Invisible Man. Due to technical difficulties the employees are forced to tell the tale themselves. Events unfurl and strange things begin to happen. Are they simply coincidences or as a result of the invisible man himself?!

**Addas ar gyfer Oedran 12+ Suitable for ages 12+**

Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru
Supported by Arts Council of Wales









# CYNGERDD DATHLU FFLACH YN 40 OED
# FFLACH 40TH CELEBRATION CONCERT

### Nos Sadwrn 5 Mawrth | Saturday 5 March, 7.30pm

£15 (£13)

Noson i ddathlu penblwydd Cwmni Recordio Fflach, Aberteifi yn 40 oed. Yn cymeryd rhan bydd rhai o artistiaid blaenllaw Cymru- Catsgam, Gwilym Bowen Rhys, Delwyn Sion, Einir Dafydd gydag ymddangosiad arbennig gan Frenhines Byd Enwog y Delyn Deires Llio Rhydderch.

Noson hefyd a fydd yn deyrnged i'r diweddar Richard a Wyn Jones, y ddau frawd a fu'n gyfrifol am gychwyn Cwmni Fflach, ac a gyfrannodd cymaint i'r Byd Adloniant Cymraeg.

Cyflwynydd y noson bydd y Cynhyrchydd a Chyflwynydd Radio Richard Rees. Ei raglen radio 'Sosban' yn ystod y 70au a'r 80au oedd yn bennaf gyfrifol am ddod a'r Byd Pop Cymraeg i'r amlwg.


A night to celebrate the 40th Birthday of the record company Fflach from Cardigan.The evening will consist of some of Wales's most celebrated artists including Catsgam, Gwilym Bowen Rhys, Delwyn Sion, Einir Dafydd and a special appearance from the world renowned Triple Harp player Llio Rhydderch.

The evening will also consist of a tribute to the founders of the company the late Richard and Wyn Jones who contributed so much to the Welsh music scene.

Presenting the artists will be the producer and radio presenter Richard Rees who brought Welsh pop music to the fore during the 1970's and 80's with his Radio Cymru programme 'Sosban '.

**Bydd elw'r noson yn mynd tuag at Ymchwil Cancr | Proceeds from the concert will go towards Cancer Research.**

HYRWYDDIR GAN | PROMOTED BY: FFLACH




CWMNI THEATR Y TORCH | TORCH THEATRE

## CARWYN

### Nos Lun 7 Mawrth | Monday 7 March, 7.30pm

£15 (£13)

**Ysgrifennwyd gan | Written by Owen Thomas**
**Cyfarwyddwyd gan | Directed by Gareth John Bale**
**Yn serennu | Starring Simon Nehan as Carwyn James**

Drama newydd sbon yw Carwyn am fywyd Carwyn James. Wedi ei hysgrifennu gan Owen Thomas, yr awdur gwobrwyedig am ei gynhyrchiad poblogaidd gan Theatr y Torch sef, 'Grav', mae'r ddrama'n archwilio bywyd dyn wnaeth gael effaith anghredadwy, parhaol ar ei famwlad.

Yn ddyn wnaeth addoli chwaraeon, diwylliant, gwleidyddiaeth, a Chymru, cafodd Carwyn James yrfa wnaeth gynnwys popeth o addysgu i ddarlledu i hyfforddi ac ysbïwriaeth. Hyd heddiw, mae'n parhau'r unig Hyfforddwr i greu cyfres o fuddugoliaethau ar gyfer y Llewod Prydeinig yn erbyn y Crysau Duon. Bydd Carwyn yn ceisio datrys yr enigma o ddyn aml-haenog. Dyn o flaen ei amser. Dyn a oedd ar ben ei hun mewn tyrfa. Dyn nad oedd yn esmwyth yn ei groen ei hun.

Wedi ei chyfarwyddo gan Gareth John Bale (seren 'Grav') ac yn serennu Simon Nehan fel Carwyn James, edrycha'r ddrama hon ar fywyd dramatig eicon diwylliannol Cymreig wnaeth adael y cae chwarae yn llawer rhy gynnar.

Carwyn is a brand-new play about the life of Carwyn James. Written by Owen Thomas, the award-winning writer of hit Torch Theatre production 'Grav', the play will explore the life of a man who made an incredible, indelible impact on his homeland.

A man who adored sport, culture, politics, and Wales, Carwyn James had a career that comprised everything from teaching to broadcasting to coaching to espionage. To this day he remains the only Coach to mastermind a series victory for the British Lions against the All Blacks. Carwyn will attempt to unravel the enigma of a multi-layered man. A man ahead of his time. A man who was alone in a crowd. A man uncomfortable in his own skin.

Directed by Gareth John Bale (the star of 'Grav') and starring Simon Nehan as Carwyn James, this play will look at the dramatic life of a Welsh cultural icon who left the field far too soon.





## THE TRIALS OF CATO

### Nos Wener 11 Mawrth | Friday 11 March, 7.30pm

£15

Enillodd The Trials of Cato wobr yr Albwm Orau yng Ngwobrau Gwerin Radio 2 yn 2019 am eu halbwm cyntaf Hide and Hair, gan eu saethu i flaen cerddoriaeth wreiddiau y DU. Yn gyfuniad cyffrous o ganu gwerin, jazz, Americana a naws y Dwyrain Canol, sy'n cynnwys mandolin, banjo, bouzouki, gitâr a lleisiau, mae eu sain anorchfygol o ddeinamig yn parhau i esblygu'n gyflym ar Gog Magog, yr ail albwm sydd ar ddod. Mae'r offerynwraig a'r gantores aml-dalentog Polly Bolton yn ymuno â'r criw.

The Trials of Cato won Best Album at 2019's Radio 2 Folk Awards for their debut release Hide and Hair, catapulting them to the forefront of the UK roots music scene. Recently joined by multi-talented instrumentalist and singer Polly Bolton, theirs is a footstomping blend of folk, jazz, Americana and Middle Eastern flavours, featuring mandolin, banjo, bouzouki, guitar and vocals. Their irresistibly dynamic sound continues to evolve apace on forthcoming second album Gog Magog.

***'One of the real discoveries on the folk circuit in recent times'* – BBC RADIO 2'S MARK RADCLIFFE**

# THE GREATEST MAGICIAN

## Nos Sadwrn 12 Mawrth | Saturday 12 March, 7.30pm

**£15 (£13), £10 plentyn|children**
**£30 The Greatest Magician VIP Ticket Experience!**
**£30 Profiad Tocyn 'VIP' ar gyfer The Greatest Magician**

Sioe hud syfrdanol newydd - a gyflwynir gan y consuriwr sydd fwyaf enwog am jamio switsfyrddau'r BBC, ar ôl iddo ragweld rhifau'r loteri yn gywir. Wedi'i chyfarwyddo gan y diweddar Paul Daniels, daw'r sioe hud ddyrys i'r llwyfan am y tro cyntaf – cewch eich cludo i fyd difyr o ddoniolwch, rhyfeddod a dirgelwch.

Cyflwynir gan gyflwynydd Trickster: Live y BBC, 'the most anticipated magician in a generation' - James Phelan yw The Greatest Magician.

Sioe hud newydd ddisglair, a gyflwynir gan y consuriwr sydd mwyaf enwog am jamio switsfwrdd y BBC ar ôl iddo ragweld rhifau'r loteri yn gywir. Bydd y sioe llawn ddirgel hon, sy'n derbyn gradd 5 seren, yn sicr o'ch pensyfrdanu'n llwyr.

**Gwahoddir deiliaid tocynnau 'VIP' i Sioe Hud 30 munud cyn y prif berfformiad, lle cewch weld gyfres o driciau yn digwydd yn syth o flaen ein llygaid. Bydd 'VIPs' hefyd yn derbyn bag nwyddau a phoster wedi'i lofnodi.**

A dazzling new magic show - presented by the magician most famous for jamming the BBC switchboards after he correctly predicted the lottery. This astonishing, five star rated magic show will leave you aching from laughter and dizzy in disbelief. Directed by the late Paul Daniels, this enigmatic magic show comes to the stage for the first time - you'll be transported to a jaw-dropping world of light-hearted hilarity, wonderment, and mystery.

Presented by the host of BBC's Trickster: Live, 'the most anticipated magician in a generation' - James Phelan is The Greatest Magician.

**VIP ticketholders will be invited to a pre-event Magic Show 30 minutes prior to the main performance, where you'll experience a close-up repertoire of tricks. VIP's will also receive a goody bag and signed poster.**









# LOST VOICE GUY: CEREBRAL LOL-SY (14+)

## Nos Wener 18 Mawrth | Friday 18 March, 8.00pm

**£16 (£14)**

Mae Lost Voice Guy yn mynd nôl ati i deithio er mwyn rhoi gwên ar wynebau pobl ledled y wlad unwaith eto. Bydd enillydd Britain's Got Talent yn procio hwyl ar ei fywyd yn byw fel person anabl mewn byd ôl-apocalyptaidd, wrth iddo geisio ymdopi â'r enwogrwydd a'r ffortiwn ers ei fuddugoliaeth gofiadwy. Efallai nad oes gan y digrifwr stand-yp acen Geordie eto, ac efallai ei fod yn dal i swnio fel fersiwn crand o Robocop, ond mae ei gomedi yn siwr o'ch syfrdanu. Fel y gwelwyd ar America's Got Talent: The Champions, The Royal Variety Performance, Live At The Apollo, The Last Leg, The One Show, a seren Ability ar Radio 4.

Lost Voice Guy is heading back out on the road to put a smile on the faces of people up and down the country once again. The Britain's Got Talent winner will poke fun at his life living as a disabled person in a post-apocalyptic world, as he tries to cope with the fame and fortune since his memorable victory. The stand-up comedian might not have a Geordie accent yet, and he might still sound like a posh version of Robocop, but his comedy is sure to leave you speechless. As featured on America's Got Talent: The Champions, The Royal Variety Performance, Live At The Apollo, The Last Leg, The One Show, and star of Ability on BBC Radio 4.



# CERI DUPREE: A STAR IS TORN

## Nos Sadwrn 19 Mawrth | Saturday 19 March, 7.30pm

**£17.50 (£16)**

Mae Ceri Dupree wedi perfformio bron ym mhobman ac wedi dynwared bron pob seren fenywaidd y gallwch chi ei henwi ar un adeg neu'i gilydd. O ran gwisgo mewn drag, fel y dywedodd Paul O'Grady amdano'i hun unwaith ... '' Mewn cae llawn asynnod, ceffyl rasio ydw i! 'Wel dewch i benderfynu drosoch chi eich hun, cewch weld y byd a'i frawd, o'r ddwy Joan - Rivers a Collins, Bassey, Cilla, Ga Ga, Cher, Amy, Camilla, Tina, Ei Mawrhydi'r Frenhines, The 3 Degrees (sut mae e'n gwneud hynny!?!) A llawer mwy. Yn cynnwys canu a dynwarediad byw, stand-yp, sgetshis a chaneuon ... a thro clyfar ar y diwedd.

Ceri Dupree has performed almost everywhere and has impersonated almost every female star you can name at one time or another. When it comes to dressing in drag, as Paul O'Grady once said of himself... ''In a field full of donkeys, I am a racehorse!' Come judge for yourself, see anyone and everyone, from Joans - Rivers and Collins, Bassey, Cilla, Ga Ga, Cher, Amy, Camilla, Tina, HM the Queen, The 3 Degrees (how does he do that!?!) and lots more. All live vocals, impersonations, stand-up, sketches and songs... and a clever twist at the end.

# MAL POPE

## Nos Wener 26 Mawrth | Friday 26 March, 7.30pm

£15 (£13)


Noson o straeon a chaneuon gan Mal Pope o'r dyddiau a dreuliodd yn recordio gydag Elton John yn Abbey Road i'r sioeau cerdd fel Cappuccino Girls ac Amazing Grace sydd wedi gwerthu theatrau ledled y wlad, bydd yn adrodd straeon am y blynyddoedd a dreuliwyd ar daith gydag Art Garfunkel a Belinda Carlisle ynghyd â rhannu sut brofiad oedd cynhyrchu ac ysgrifennu'r gerddoriaeth ar gyfer y ffilm "Jack to a King". Bydd y perfformiad agos-atoch hwn yn cynnwys caneuon y mae Mal wedi'u hysgrifennu ar gyfer artistiaid fel Cliff Richard, The Hollies a deuawdau y mae wedi'u recordio gyda Bonnie Tyler ac Aled Jones.

Efallai y cewch gyfle hyd yn oed i ofyn rhai cwestiynau i Mal am y straeon y tu ôl ir caneuon!

An evening of stories and songs from Mal Pope. From the days he spent recording with Elton John at Abbey Road, to the musicals like Cappuccino Girls and Amazing Grace that have sold out theatres across the country, he'll be telling stories about the years spent touring with Art Garfunkel and Belinda Carlisle as well as sharing what it was like to produce and write the music for the film "Jack to a King". This intimate performance will feature songs Mal has written for artists like Cliff Richard, The Hollies and duets he has recorded with Bonnie Tyler and Aled Jones.

You might even get a chance to ask Mal some questions about the stories behind the songs!







# SIMON EVANS: THE WORK OF THE DEVIL (14+)

## Nos Wener 1 Ebrill | Friday 1 April, 8.00pm

£15 (£13)

Darparodd sioe ddiwethaf Simon Evans, Genius 2.0 ("A Masterclass" ***** The Scotsman) ddadansoddiad hynod ddoniol o ymadawiad unrhyw arwydd gweladwy o ddeallusrwydd o fywyd modern. Ond mae ei sioe newydd yn mynd un cam ymhellach, gyda'i farn ysgytwol arferol o fyd sydd ar dân o ystyried newid mewn persbectif o ganlyniad i ddatguddiadau personol a drodd ei fyd wyneb i waered eleni.

Simon Evans' last show, Genius 2.0 ("A Masterclass" ***** The Scotsman) provided an hilarious analysis of the departure of any visible sign of intelligence from modern life. But his new show raises the stakes, with his usual excoriating views of a world on fire given a perspective shift from personal revelations that turned his world upside down this year.

Simon yw seren / Simon is star of: Live at the Apollo, Mock The Week, The News Quiz BBC Radio 4, The Unbelievable Truth a Simon Evans Goes To Market. Simon has appeared on / Mae Simon wedi ymddangos ar: This Week, Question Time, Celebrity Mastermind, Pointless Celebrities a Mastermind The Professionals.



# DIGWYDDIADAU BYW YN DOD YN FUAN...
# LIVE SHOWS COMING SOON...

Nos Iau 7 Ebrill | Thursday 7 April, 8pm
**SEANN WALSH: BACK FROM THE BED**

Dydd Mercher 20 Ebrill | Wednesday April 20, 2.30pm
**PEOPLE'S THEATRE COMPANY: I SPY WITH MY LITTLE EYE**

Nos Fawrth 26 Ebrill | Tuesday 26 April, 7.30pm
**THE FUREYS**

Nos Iau 28 Ebrill | Thursday 28 April, 7.30pm
**NISH KUMAR: YOUR POWER, YOUR CONTROL (18+)**

Nos Sadwrn 30 Ebrill | Saturday 30 April, 7.30pm
**ANDY PARSONS: HEALING THE NATION (14+)**

Manylion pellach | Further details:
www.mwldan.co.uk

# LIVE BROADCAST EVENTS
# DARLLEDIADAU BYW DRWY LOREN



**Cynhelir ein darllediadau byw ar sail cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr. Bydd seddi'n cael eu dyrannu i chi ar ôl i chi gyrraedd. Archebu tocynnau o flaen llaw yn hanfodol.** **GWELER TUDALEN 30 AM FEINI PRAWF MYNEDIAD.**

**All of our live broadcast performances will be operated on a 2 metre socially distanced basis. Pre-booking essential. Seat nunbers wil be allocated on arrival by a member of staff.** **PLEASE SEE PAGE 30 FOR ENTRY CRITERIA.**



### ROYAL OPERA HOUSE:
## TOSCA
### Nos Fercher 19 Ionawr | Wednesday 19 January, 7.15pm
£17 (£16)

Daw drwgewyllys y Barwn Scarpia, Pennaeth yr Heddlu, i fyd rhamantus yr arlunydd delfrydyddol Cavaradossi a'i gariad Tosca gyda chanlyniadau tyngedfennol. Mae Elena Stikina, Bryan Hymel ac Alexey Markov yn dod ag un o'r operâu mwyaf poblogaidd yn repertoire The Royal Opera: Tosca gan Puccini yn fyw. O gordiau demonaidd enwog ei hagoriad i dro treisgar ysgytiol ei diweddglo, nid yw'r tensiwn yn yr opera yn peidio am eiliad. Daw cariad a drygioni wyneb yn wyneb mewn modd gwefreiddiol yng nghynhyrchiad dwys Jonathan Kent.

Into the romantic world of an idealistic painter Cavaradossi and his sensuous lover Tosca comes the malevolence of Baron Scarpia, Chief of Police, with fatal results. Elena Stikina, Bryan Hymel and Alexey Markov bring to life one of the best loved operas in The Royal Opera repertory: Puccini's Tosca. From the demonic chords with which it famously begins to the violent twist of the opera's shock ending, the tension never lets up for a moment. Love and evil come – thrillingly – face to face in Jonathan Kent's intense production.



### NT LIVE:
## LEOPOLDSTADT (12A TBC)
### Nos Iau 3 Chwefror | Thursday 3 February, 7pm
£12.50 (£11.50)

Mae Leopoldstadt, drama newydd Tom Stoppard a enillodd wobr Olivier, yn ddrama angerddol am gariad, teulu a dygnwch. Ar ddechrau'r 20fed ganrif, Leopoldstadt oedd yr hen chwarter Iddewig gorlawn yn Fienna, Awstria. Ond mae Hermann Merz, perchennog ffatri a gafodd ei fedyddio'n Iddew sydd bellach yn briod â Gretl sy'n Gatholig, wedi gwella ei le yn y byd. Dilynwn stori ei deulu ar draws hanner canrif, gan basio trwy gynyrfiadau rhyfel, chwyldro, tlodi, cyfeddiannaeth gan yr Almaen Natsïaidd a'r Holocost. Wedi'i ffilmio'n fyw ar y llwyfan yn West End Llundain, 'mae campwaith Tom Stoppard yn odidog' (Independent) ac ni ddylid ei golli.

Tom Stoppard's Olivier Award-winning new play Leopoldstadt is a passionate drama of love, family and endurance. At the beginning of the 20th century, Leopoldstadt was the old, crowded Jewish quarter of Vienna, Austria. But Hermann Merz, a factory owner and baptised Jew now married to Catholic Gretl, has moved up in the world. We follow his family's story across half a century, passing through the convulsions of war, revolution, impoverishment, annexation by Nazi Germany and the Holocaust. Filmed live on stage in London's West End, 'Tom Stoppard's masterpiece is magnificent' (Independent) and should not be missed.



### ROYAL OPERA HOUSE:
## ROMEO AND JULIET
### Nos Lun 14 Chwefror | Monday 14 February, 7.15pm
£17 (£16)

Mae Romeo a Juliet wedi dod yn glasur bale modern gwych yn y repertoire bale ers cael ei greu gan Kenneth MacMillan, Cyfarwyddwr y Bale Brenhinol a'i première ym 1965. Yn y dangosiad arbennig hwn ar Ddydd San Ffolant, mae'r cariadon trychinebus yn ceisio dod o hyd i'w ffordd trwy liw a bwrlwm Ferona adeg y Dadeni, lle mae marchnad brysur yn gyflym yn troi'n frwydr cleddyfau ac mae ffrae deuluol yn arwain at drasiedi i'r Montagues a'r Capulets.

Romeo and Juliet has become a great modern ballet classic of the ballet repertory since its creation by Royal Ballet Director Kenneth MacMillan and its premiere in 1965. In this special screening on Valentine's Day, the doomed lovers attempt to find their way through the colour and action of Renaissance Verona, where a busy market all too quickly bursts into sword fighting and a family feud leads to tragedy for both the Montagues and the Capulets.



Nos Iau 3 Mawrth | Thursday 3 March, 7pm

## THE BOOK OF DUST – LA BELLE SAUVAGE

£12.50 (£11.50)

**Gan | By Philip Pullman, addaswyd gan | adapted by Bryony Lavery**
**cyfarwyddwyd gan | directed by Nicholas Hytner**

Wedi'i osod ddeuddeng mlynedd cyn y drioleg epig His Dark Materials, mae'r addasiad gafaelgar hwn yn ailedrych ar fyd rhyfeddol Philip Pullman lle mae dyfroedd yn codi a stormydd yn corddi.

Mae dau berson ifanc a'u 'dæmons', gyda phopeth yn y fantol, yn cael eu hunain yng nghanol helfa ddychrynllyd. Yn eu gofal mae plentyn bach o'r enw Lyra Belacqua, ac yn y plentyn hwnnw ceir tynged y dyfodol. Ac wrth i'r dyfroedd godi o'u cwmpas, mae gwrthwynebwyr pwerus yn cynllwynio i feistroli Llwch: iachawdwriaeth i rai, ffynhonnell llygredd anfeidrol i eraill.

Set twelve years before the epic His Dark Materials trilogy, this gripping adaptation revisits Philip Pullman's fantastical world in which waters are rising and storms are brewing.

Two young people and their dæmons, with everything at stake, find themselves at the centre of a terrifying manhunt. In their care is a tiny child called Lyra Belacqua, and in that child lies the fate of the future. And as the waters rise around them, powerful adversaries conspire for mastery of Dust: salvation to some, the source of infinite corruption to others.

## YN DOD YN FUAN...
## COMING SOON...

Nos Iau 10 Mawrth | Thursday 10 March, 7.15pm
**ROH: RIGOLETTO**

Nos Iau 17 Mawrth | Thursday 17 March, 7pm
**NT LIVE: HEX**

Dydd Sul 17 Ebrill | Sunday 17 April, 2pm
**ROH: LA TRAVIATA**

Nos Iau 21 Ebrill | Thursday 21 April, 7pm
**NT LIVE: HENRY V**

Nos Iau 19 Mai | Thursday 19 May, 7.15pm
**ROH: SWAN LAKE**

Manylion pellach | Further details:
www.mwldan.co.uk



# SINEMA
# CINEMA



## PRISIAU'R SINEMA YW:
## CINEMA PRICES ARE:

£7.70
ar gyfer oedolion | Adults

£5.90
ar gyfer plant oed 14 ac yn iau | Children aged 14 and under

ST ISDEITLAU | SUBTITLES

CYMDEITHAS FFILM THEATR MWLDAN FILM SOCIETY

Bydd ffilmiau'n dechrau ar yr amser a hysbysebir
Films will start at the advertised time

## GWYBODAETH BWYSIG YNGHYLCH DANGOSIADAU SINEMA
## IMPORTANT INFORMATION REGARDING CINEMA SCREENINGS

Cynhelir ein holl berfformiadau sinema a darllediadau byw ar sail cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr. GWELER TUDALEN 30 AM MWY O WYBODAETH AM FEINI PRAWF MYNEDIAD.

Rhaid archebu pob tocyn ymlaen llaw. Bydd seddi'n cael eu dyrannu i chi ar ol i chi gyrraedd.

Mae archebu'n cau ar-lein 1 awr cyn amser dechrau'r. Byddwn yn agor ein prif ddrysau 30 munud cyn amser.

Rhowch wybod i ni wrth archebu tocynnau os oes gennych unrhyw geisiadau am seddi trwy adael nodyn yn y blwch sylwadau wrth i chi archebu ar-lein neu ar lafar os ydych chiín ffonio.

All of our cinema and live broadcast performances will be operated on a 2 metre socially distanced basis. PLEASE REFER TO PAGE 30 FOR IMPORTANT INFORMATION REGARDING ENTRY REQUIREMENTS.

All tickets must be pre-booked. Cinema seat numbers will be allocated on arrival by a member of staff.

Booking closes online 1 hour prior to the start time. Our front doors will be open 30 minutes before the screening starts.

Please let us know on booking if you have any seating requests via the comments section of your online booking or verbally if you are phoning.

## CYFLE ARALL I WELD ......
## ANOTHER CHANCE TO SEE.....

Ionawr | Jan 7, 11 @ 7.00

### NO TIME TO DIE (12A)

Ionawr | January 8, 9 @ 1.00, 15, 16 @ 1.15, 29 @ 12.45
Chwefror | February 5 @ 1.00

### CLIFFORD THE BIG RED DOG (PG)

Ionawr | January 8 @ 1.30, 9 @ 12.30, 30 @ 12.45
Chwefror | February 6 @ 1.00

### ENCANTO (PG)

Ionawr | January 8, 9, 15, 16 @ 3.45, 30 @ 3.30

### WEST SIDE STORY (12A TBC)

Ionawr | January 8 @ 4.15, 9 @ 3.15, 29 @ 3.30
Chwefror | February 5, 6 @ 1.45, 12 @ 1.30, 13 @ 12.15

### SPIDERMAN: NO WAY HOME (12A)

Manylion pellach | Further details:
www.mwldan.co.uk





Ionawr | January 7 @ 7.30, 8 @ 2.15 & 7.30, 9 @ 2.00 & 7.30, 11 ST, 12, 13 @ 7.30


## THE KING'S MAN (15 tbc)

Matthew Vaughn | UK | USA | 2021 | TBC

Wrth i gasgliad o ormeswyr a meistri troseddol gwaethaf hanes ymgynnull i gynllunio rhyfel a fydd yn lladd miliynau, rhaid i un dyn rasio yn erbyn y cloc i'w hatal. Cewch ddarganfod tarddiad yr asiantaeth wybodaeth annibynnol gyntaf yn *The King's Man*.

As a collection of history's worst tyrants and criminal masterminds gather to plot a war to wipe out millions, one man must race against time to stop them. Discover the origins of the very first independent intelligence agency in *The King's Man*.





Ionawr | January 8, 12, 13 @ 8.00

## REBEL DYKES (18)

Harri Shanahan | UK | 2021 | 89'

Mae cymysgedd meddwol o animeiddiad, darnau ffilm archif a chyfweliadau yn adrodd hanes sîn diwylliant radical ôl pync dyke yn y DU: sgwatwyr, clybiau nos BDSM, raliau gwrth-Thatcher, protestiadau yn mynnu gweithredu ynghylch AIDS a chlymau cadarn y teulu a ddewiswyd. Mae Rebel Dykes yn un o'r ffilmiau mwyaf hwyliog a llawn cyffro y byddwch yn ei gweld eleni. Mae'n dilyn grŵp o ffrindiau agos a gyfarfu yng ngwersyll heddwch Comin Greenham yn yr 1980au ac a aeth ymlaen i fod yn artistiaid, perfformwyr, cerddorion ac ymgyrchwyr yn Llundain. Mae'n rhoi cipolwg hynod freintiedig i fyd a fu, a chaiff yr hanes ei adrodd gan y rheiny a wnaeth amlygu eu gwleidyddiaeth gydag argyhoeddiad didwyll a byw i ddweud y stori.

A heady mash-up of animation, archive footage and interviews tells the story of a radical UK post-punk dyke culture scene: squatters, BDSM nightclubs, anti-Thatcher rallies, protests demanding action around AIDS and the fierce ties of chosen family. One of the most fun and exhilarating films you'll see this year, Rebel Dykes follows a tight-knit group of friends who met at Greenham Common peace camp in the 1980s and went on to become artists, performers, musicians and activists in London, giving an extraordinarily privileged glimpse into a bygone world, told by those who not only lived out their politics with heartfelt conviction but lived to tell the tale.



Ionawr | January 9 @ 6.30

## MINARI (12A)

Lee Isaac Chung | US |2020 | 115'

Mewn stori dyner ac ysgubol am yr hyn sy'n ein gwreiddio ni, mae Minari'n dilyn teulu Coreaidd-Americanaidd sy'n symud i fferm fach yn Arkansas i chwilio am eu Breuddwyd Americanaidd eu hunain. Mae cartref y teulu'n newid yn llwyr pan fydd eu mam-gu slei, reglyd, ond annwyl iawn yn cyrraedd. Yng nghanol ansefydlogrwydd a heriau'r bywyd newydd hwn yn nhir garw mynyddoedd yr Ozark, mae Minari'n arddangos gwydnwch teuluol heb ei ail, a beth sy'n creu cartref go iawn.

A tender and sweeping story about what roots us, Minari follows a Korean-American family that moves to a tiny Arkansas farm in search of their own American Dream. The family home changes completely with the arrival of their sly, foul-mouthed, but incredibly loving grandmother. Amidst the instability and challenges of this new life in the rugged Ozarks, Minari shows the undeniable resilience of family and what really makes a home.



Ionawr | January 14 @ 7.00, 15, 16 @ 12.45, 4.15 & 7.45, 18 – 20 @ 7.30, 21 @ 7.00, 22 @ 12.45, 4.00 & 7.15, 23 @ 1.00, 4.15 & 7.15, 25 ST, 26 @ 7.00, 27 @ 6.30

## CYRANO (12A tbc)

Joe Wright | UK/USA/Canada/Italy | 2021 | 124'

Dyma i chi ail-ddychmygiad o stori fythol am driongl cariad torcalonnus. Mae dyn o flaen ei amser, Cyrano de Bergerac (yn cael ei chwarae gan Peter Dinklage) yn disgleirio p'un ai drwy chwarae bywiog ar eiriau wrth ymryson ar lafar neu drwy gleddyfa gwych mewn gornest. Ond mae Cyrano, sydd wedi'i argyhoeddi bod ei ymddangosiad yn ei wneud yn annheilwng o gariad ei ffrind ffyddlon, yr hyfryd Roxanne (Haley Bennett), heb sôn eto am ei deimladau tuag ati - ac mae Roxanne wedi syrthio mewn cariad, ar yr olwg gyntaf, â Christian (Kelvin Harrison, Jr.).

A re-imagining the timeless tale of a heart-breaking love triangle. A man ahead of his time, Cyrano de Bergerac (played by Peter Dinklage) dazzles whether with ferocious wordplay at a verbal joust or with brilliant swordplay in a duel. But, convinced that his appearance renders him unworthy of the love of a devoted friend, the luminous Roxanne (Haley Bennett), Cyrano has yet to declare his feelings for her — and Roxanne has fallen in love, at first sight, with Christian (Kelvin Harrison, Jr.).







Ionawr | January 14 @ 7.30, 15 – 16 @ 7.15, 18, 20 @ 7.00

## SAVE THE CINEMA (12A tbc)

Sarah Sugarman | UK | 2021 | 109'

Mae'r ffilm Save The Cinema wedi'i hysbrydoli gan y digwyddiadau bywyd go iawn rhyfeddol a chawsant eu sbarduno gan y diysgog Liz Evans (Samantha Morton), triniwr gwallt ac arweinydd theatr ieuenctid yng Nghaerfyrddin, a ddechreuodd ymgyrch ym 1993 i achub theatr y Lyric rhag cau. Ochr yn ochr â Maer Caerfyrddin, Richard Goodridge, llwyddasant i gael help Steven Spielberg, a sicrhau première arbennig o Jurassic Park yng Nghymru.

